



PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I AWDURDOD IECHYD ARBENNIG – ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU (AaGIC)

Rydym yn cynnig cyfle cyffrous i gyfrannu at y gwaith o lywio dyfodol gweithlu'r GIG yng Nghymru trwy ymgymryd â rôl Aelod Annibynnol ar y Bwrdd. Felly, beth am ddangos bod gennych y gallu i wneud gwahaniaeth o bwys ym maes darparu gwasanaethau iechyd i bobl Cymru?

Rydym yn recriwtio chwe Aelod Annibynnol i'r sefydliad isod. Mae manylion y rôl hefyd i'w gweld. Os ydych yn awyddus i chwarae rôl lawn a gweithgar yn y gwaith o lywodraethu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), ac i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Cymru, fe hoffem glywed gennych.

Er mwyn inni allu ymateb i'r her o greu dull gweithredu strategol ar gyfer datblygu gweithlu iechyd Cymru, heddiw ac ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau bod ein gwasanaethau iechyd yn gweithredu mewn modd gwirioneddol aml-ddisgyblaethol, rydym yn chwilio am chwe unigolyn brwdfrydig ac egniol i ymgymryd â rôl **Aelod Annibynnol o Fwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru**.

Byddwch yn meddu ar y gwerthoedd a'r sgiliau priodol ar gyfer darparu arweinyddiaeth strategol i AaGIC er mwyn i'r sefydliad allu gwireddu ei weledigaeth a chyflawni ei nodau ac amcanion. Byddwch yn cymryd rhan weithredol yn nhrefodaethau'r Bwrdd, gan gynnig eich barn, a herio a chefnogi'r Bwrdd ar faterion allweddol. Byddwch yn helpu i lywodraethu AaGIC a rheoli ei gyllid, ac yn cyfrannu'n llawn i'r broses o wneud penderfyniadau.

Felly, beth am ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i gynorthwyo gwaith y Bwrdd? Mae GIG Cymru wrthi'n chwilio am unigolion i gyflawni'r rôl ganlynol:-

Aelodau Annibynnol

- **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) - yn gwasanaethu Cymru gyfan - (6 swydd)**

Gwneir y penodiad ar sail teilyngdod ond rhoddir ystyriaeth i'r angen i gael amrywiaeth gytbwys o sgiliau.

Penodir yr Aelodau Annibynnol am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd. Mae swyddi Aelodau Annibynnol yn seiliedig ar ymrwymiad amser tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, a bydd yn aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, megis menywod, pobl anabl, ac unigolion o leiafrifoedd ethnig, ac i glywed am y sgiliau sydd gennych i gyfrannu at y rolau hyn. I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais, ewch i <http://gov.wales/about/recruitment/public-appointments/?skip=1&lang=cy> neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi gysylltu â'r Ddesg Gymorth Cydwasanaethau yn Llywodraeth Cymru drwy e-bostio: sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk neu ffonio: 029 2082 5454.

Nodwch mai **13 Hydref 2017** yw'r dyddiad cau. **I gael fersiwn print bras, Braille neu sain o'r hysbyseb hon, ffoniwch 029 2082 5454.**